Datganiad Cyntaf

Dyddiad: 27 Awst 2014
Ardal: Cymru

SDR 137/2014

Lleoliadau gwasanaeth a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC, 30 Mehefin 2014

Mae'r datganiad cyntaf hwn yn crynhoi gwybodaeth am nifer y lleoliadau gwasanaeth a lleoedd a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae'r datganiad yn cyflwyno canlyniadau allweddol ar gyfer Cymru ar 30 Mehefin 2014 (mis Ebrill i fis Mehefin 2014) ac yn eu cymharu â ffigurau ar ddiwedd cyfnodau tri mis blaenorol. Mae cofrestru a dadgofrestru a newidiadau mewn cofrestriadau'n digwydd drwy gydol y flwyddyn, er bod nifer y lleoliadau sydd wedi eu cofrestru ar unrhyw un adeg yn weddol gyson ar y cyfan.

Cyhoeddir rhagor o wybodaeth fesul awdurdod lleol unigol a math o leoliad ar offeryn lledaenu ystadegau Llywodraeth Cymru, StatsWales.
http://statswales.wales.gov.uk/index.htm

Ceir eglurhad pellach ar y termau a ddefnyddir yn y datganiad hwn yn yr eirfa.

Canlyniadau allweddol ar 30 Mehefin 2014:

- Roedd 6,309 o leoliadau gwasanaeth wedi'u rheoleiddio gan AGGCC erbyn 30 Mehefin 2014, sef cynnydd o 35 o 6,274 o leoliadau gwasanaeth cyn 31 Mawrth 2014.

- Roedd 105,769 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGGCC erbyn 30 Mehefin 2014, sef cynnydd o 763 ers diwedd y chwarter blaenoro.

Tabl 1: Nifer y gwasanaethau a'r lleoedd a reoleiddir gan AGGCC

	30 Medi 2013	31 Rhagfyr 2013	31 Mawrth 2014	30 Mehefin 2014
Gwasanaethau Oedolion				
Lleoliadau	1,597	1,600	1,603	1,603
Lleoedd	26,335	26,265	26,240	26,193
Gofal Dydd i Blant				
Lleoliadau	4,300	4,359	4,446	4,480
Lleoedd	76,136	76,508	76,590	77,391
Gwasanaethau Plant				
Lleoliadau	220	223	225	226
Lleoedd	2,160	2,165	2,176	2,185
Cyfanswm				
Lleoliadau	6,117	6,182	6,274	6,309
Lleoedd	104,631	104,938	105,006	105,769

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

Cysylltu: Claire Bushell **Ffôn:** 0300 062 8911 **E-bost:** cssiw_information@wales.gsi.gov.uk
Y diweddariad nesaf: Tachwedd 2014 (amodol) **Twitter:** www.twitter.com/CSSIW

Gwasanaethau oedolion

Tabl 2: Nifer y gwasanaethau a'r lleoedd ar gyfer gwasanaethau oedolion a reoleiddir gan AGGCC

	30 Medi 2013	31 Rhagfyr 2013	31 Mawrth 2014	30 Mehefin 2014
Lleoli Oedolion				
Lleoliadau	11	11	11	11
Lleoedd [(a)]	.	.	.	.
Gofal Preswyl i Oedolion				
Cartrefi Gofal (Oedolion Hŷn)				
Lleoliadau	677	675	675	672
Lleoedd	22,934	22,843	22,816	22,719
Cartrefi Gofal (Oedolion Iau)				
Lleoliadau	458	461	457	457
Lleoedd	3,401	3,422	3,424	3,474
Gofal Cartref				
Lleoliadau	415	416	422	425
Lleoedd [(a)]	.	.	.	.
Asiantaethau Nyrsys				
Lleoliadau	36	37	38	38
Lleoedd [(a)]	.	.	.	.
Cyfanswm				
Lleoliadau	1,597	1,600	1,603	1,603
Lleoedd	26,335	26,265	26,240	26,193

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

(a) Nid yw niferoedd yn cael eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion nac yn y lleoliadau a'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru.

- Roedd 1,603 o wasanaethau oedolion yn cael eu rheoleiddio gan AGGCC ar 30 Mehefin 2014. Mae'r ffigwr hwn wedi aros yr un fath â'r chwarter blaenorol.

- Roedd 26,193 o leoedd wedi'i cofrestru gydag AGGCC erbyn 30 Mehefin 2014, sef gostyngiad o 47 o leoedd ers diwedd y chwarter blaenorol.

Gwasanaethau plant

Tabl 3: Nifer y gwasanaethau a'r lleoedd ar gyfer gwasanaethau plant a gofrestrwyd gydag AGGCC

	30 Medi 2013	31 Rhagfyr 2013	31 Mawrth 2014	30 Mehefin 2014
Preswyl Plant				
Lleoliadau	125	127	129	130
Lleoedd	577	583	595	604
Gwasanaethau Maethu				
Lleoliadau	47	49	50	50
Lleoedd	.	.	.	.
Gwasanaethau Mabwysiadu				
Lleoliadau	23	23	23	23
Lleoedd	.	.	.	.
Ysgolion Preswyl				
Lleoliadau	11	10	9	9
Lleoedd	1,175	1,174	1,173	1,173
Ysgolion Arbennig Preswyl				
Lleoliadau	11	11	11	11
Lleoedd	238	238	238	238
Colegau Addysg Bellach				
Lleoliadau	3	3	3	3
Lleoedd	170	170	170	170
Cyfanswm				
Lleoliadau	220	223	225	226
Lleoedd	2,160	2,165	2,176	2,185

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

- Roedd 226 o leoliadau gwasanaethau i blant wedi'u rheoli gan AGGCC erbyn 30 Mehefin 2014, sef cynnydd bach ers y chwarter blaenorol.

- Roedd 2,185 o leoedd gwasanaethau i blant wedi'u cofrestru gydag AGGCC erbyn 30 Mehefin 2014, sef cynnydd bach ers diwedd y chwarter blaenorol.

Gofal dydd i blant

Tabl 4: Nifer y gwasanaethau a'r lleoedd ar gyfer gofal dydd i blant a gofrestrwyd gydag AGGCC

	30 Medi 2013	31 Rhagfyr 2013	31 Mawrth 2014	30 Mehefin 2014
Gwarchodwyr Plant				
Lleoliadau	2,310	2,370	2,456	2,473
Lleoedd	12,017	12,314	12,739	12,909
Gofal Dydd Llawn				
Lleoliadau	641	642	648	652
Lleoedd	26,894	26,931	27,023	27,229
Gofal Dydd Sesiynol				
Lleoliadau	767	774	777	781
Lleoedd	17,180	17,420	17,351	17,478
Gofal y Tu Allan i'r Ysgol				
Lleoliadau	481	474	474	477
Lleoedd	16,892	16,708	16,747	16,810
Meithrinfeydd				
Lleoliadau	42	40	33	36
Lleoedd	775	757	643	688
Darpariaethau Chwarae Mynediad				
Lleoliadau	59	59	58	61
Lleoedd	2,378	2,378	2,087	2,277
Cyfanswm				
Lleoliadau	4,300	4,359	4,446	4,480
Lleoedd	76,136	76,508	76,590	77,391

Ffynhonnell: System cefnogi busnes AGGCC

- Roedd 4,480 o leoedd gwasanaeth gofal dydd plant wedi'u cofrestru gydag AGGCC erbyn 30 Mehefin 2014, sef cynnydd bach o 4,446 o leoliadau gwasanaeth ers diwedd y chwarter blaenorol.

- Roedd 77,391 o leoedd gofal dydd plant wedi'u cofrestru gydag AGGCC erbyn 30 Mehefin 2014, sef cynnydd o 801 ers diwedd y chwarter blaenorol.

Geirfa

Lleoedd	Bydd rhai lleoliadau a gwasanaethau'n cael eu cofrestru i ddarparu gofal i uchafswm o bobl – nifer y lleoedd cofrestredig. Nid yw niferoedd yn cael eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion nac yn y lleoliadau a'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru (gweler "Cofrestru").
Darparwr	Corff neu unigolyn sy'n darparu gwasanaeth blynyddoedd cynnar neu ofal cymdeithasol a reoleiddir.
Data chwarterol	Mae data chwarterol yn gronnus. Sylwir ar hyn yn arbennig wrth edrych ar ddata sy'n ymwneud â gweithgareddau arolygu.
Cofrestru	AGGCC sy'n penderfynu pwy gaiff ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n rhaid i ambell wasanaeth rheoledig gofrestru gydag AGGCC cyn y caiff ddechrau gweithredu. Mae'r gwasanaethau hynny'n cynnwys: Cartrefi gofal i oedolion hŷn ac iau, asiantaethau gofal cartref, cartrefi plant, asiantaethau maethu yn y sector annibynnol ac yn y sector cyhoeddus, asiantaethau mabwysiadau yn y sector gwirfoddol ac yn y sector cyhoeddus, gwarchodwyr plant a meithrinfeydd. Dylid nodi na fydd asiantaethau maethu awdurdodau lleol, asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl na cholegau addysg bellach yn cofrestru gydag AGGCC ond eu bod yn cael eu rheoleiddio gan AGGCC (gweler 'Rheoleiddio').
Rheoleiddio	Dyma'r broses y mae AGGCC yn ei defnyddio i wneud asesiadau a ffurfio barn broffesiynol ynghylch gwasanaethau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar ac felly annog darparwyr y lleoliadau a'r gwasanaethau i wneud gwelliannau. Mae Rheoleiddio'n cynnwys: Cofrestru - AGGCC sy'n penderfynu pwy sy'n cael darparu gwasanaethau; Arolygu - mae AGGCC yn arolygu'r gwasanaethau hynny ac yn cyhoeddi adroddiadau; Pryderon a chwynion - mae AGGCC yn awyddus i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau gofal sydd wedi eu cofrestru gyda ni, gan gynnwys pryderon neu gwynion, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n ddiogel ac yn darparu gofal o safon uchel; Cydymffurfio - mae AGGCC yn rhoi cymorth i gydymffurfio â'r rheoliadau; a Gorfodi - bydd AGGCC yn cymryd camau gorfodi er mwyn gwneud yn siŵr bod darparwyr yn cyfarfod â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 1989, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Rheoliadau	Dyma'r rheolau y mae'r gwaith rheoleiddio'n seiliedig arnynt, a'r bwriad yw eu gweithredu er mwyn cyflawni rhan benodol o ddeddfwriaeth. Y llywodraeth sy'n pennu'r rheoliadau er mwyn cyflawni ei hamcanion, a chânt eu gorfodi gan reoleiddwyr megis AGGCC. Bydd AGGCC yn rheoleiddio ar ran Gweinidog Cymru yn unol â'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 1989, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002.
Lleoliadau a gwasanaethau	Y termau a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw gyrff neu unigolion sy'n cael eu rheoleiddio gan AGGCC.
Gofal dydd i blant	Mae'n cynnwys y gwasanaethau canlynol: Gofal Dydd Llawn Gwarchodwyr Plant Gofal y Tu Allan i'r Ysgol Gofal Dydd Sesiynol Meithrinfeydd Darpariaethau Mynediad Agored
Gwasanaethau i blant	Mae'n cynnwys y gwasanaethau canlynol: Cartrefi Plant Canolfannau Preswyl i Deuluoedd Asiantaethau maethu yn y sector annibynnol ac yn y sector cyhoeddus Asiantaethau mabwysiadu yn y sector gwirfoddol ac yn y sector cyhoeddus Ysgolion preswyl sy'n lletya myfyrwyr dan 18 oed Ysgolion arbennig preswyl sy'n lletya myfyrwyr dan 18 oed Colegau addysg bellach sy'n lletya myfyrwyr dan 18 oed Unedau diogelwch (wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer cartrefi plant oherwydd y niferoedd isel)
Gwasanaethau i oedolion	Mae'n cynnwys y gwasanaethau canlynol: Cartrefi Gofal i Oedolion Hŷn (65 oed a throsodd) Cartrefi Gofal i Oedolion Iau (dan 65 oed) Cynlluniau Lleoli Oedolion Asiantaethau Gofal Cartref Asiantaethau Nyrsys

Nodiadau

1. Ffynhonnell yr ystadegau

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn hybu'r gwaith o wella gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol drwy wneud y canlynol:

- rheoleiddio
- arolygu ac adolygu
- rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a llunwyr polisi

Mae'r wybodaeth yn y briff hwn yn deillio o'r system weinyddol y mae AGGCC yn ei defnyddio i gofrestru ac i reoleiddio lleoliadau gofal. Dim ond i leoliadau sy'n cael eu rheoleiddio y mae'r wybodaeth yn berthnasol. Mae AGGCC wrthi'n adolygu'r broses a'r systemau rheoleiddio.

2. Amseriad

Mae system weinyddol AGGCC yn cael ei diweddaru'n barhaus fel rhan o waith rheoleiddio'r arolygiaeth o ddydd i ddydd. Mae a wnelo'r cyhoeddiad â chipluniau o'r system a gymerir yn chwarterol drwy gydol y flwyddyn ariannol. Felly mae gwybodaeth a gyhoeddir ar gael ar gyfer diwedd

- Chwarter 1 (Ebrill i Fehefin) sef 30 Mehefin
- Chwarter 2 (Gorffennaf i Fedi) sef 30 Medi
- Chwarter 3 (Hydref i Ragfyr) sef 31 Rhagfyr
- Chwarter 4 (Ionawr i Fawrth) sef 31 Mawrth

3. Ansawdd data

Mae cofrestru a dadgofrestru a newidiadau mewn cofrestriadau'n digwydd drwy gydol y flwyddyn, er bod nifer y lleoliadau sydd wedi eu cofrestru ar unrhyw un adeg yn weddol gyson ar y cyfan.
Efallai bod peth o'r data yn yr adroddiad hwn wedi cael ei ddiwygio ers iddo gael ei gyhoeddi ddiwethaf yn adroddiad blynyddol 2010-11 y Prif Arolygydd.

4. Symbolau

Defnyddir y symbolau canlynol yn y tablau hyn:

. = nid yw'r data'n berthnasol
.. = nid yw'r data ar gael
- = nid yw'r data yn union sero, ond caiff ei amcangyfrif fel sero neu lai na hanner y digid terfynol a ddangosir
* = nid yw'r data'n cael ei ddatgelu neu nid yw'n ddigon pendant i gael ei gyhoeddi

5. Datgelu a thalgrynnu

Nid yw'r manylion yn y tablau hyn nac yn y tablau ategol yn StatsWales wedi eu talgrynnu. Y rheswm am hyn yw bod y wybodaeth hon i'w chael hefyd yng Nghyfeiriadur Gwasanaethau Rheoledig AGGCC (gweler eitem 9).

6. Polisi diwygiadau

Gan fod y data'n deillio o system weinyddol ac yn rhoi darlun o weithgarwch a gofnodwyd ar ddyddiad penodol, ni fydd data'n cael ei ddiwigio bob chwarter. Efallai nad yw'r darlun hwn yn gwbl gywir gan nad yw'r wybodaeth o bosib wedi cael ei rhoi ar y system tan yn ddiweddarach (h.y. y chwarter nesaf) ac fe allai'r chwarter nesaf gynnwys rhywfaint o ddata o'r chwarter blaenorol a oedd yn 'hwyr' yn cael ei gofnodi. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd nifer yr achosion dan sylw yn isel.

7. Defnyddio ystadegau

Rydym yn credu mai'r canlynol yw'r prif rai sy'n defnyddio gwybodaeth am leoliadau sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru (ac eithrio defnydd craidd AGGCC):

- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Aelodau'r Cynulliad a Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Awdurdodau unedol llywodraeth leol (swyddogion ac aelodau etholedig)
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- Rhannau eraill o Lywodraeth Cymru
- Adrannau eraill o'r llywodraeth
- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat

Ar wahân i'r defnydd craidd y mae AGGCC yn ei wneud o'r wybodaeth, bydd yr ystadegau hyn yn cael eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynghori Gweinidogion
- Gwaith meincnodi a chymharu awdurdodau unedol
- Bod yn sail i drafodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol a thu hwnt
- Darparu gwybodaeth i'r rheini sy'n comisiynu gwasanaethau gofal

8. Adborth Defnyddwyr

Mae arnom eisiau ymgysylltu â defnyddwyr ein hystadegau ac rydym yn eich gwahodd i anfon eich sylwadau ar y cyhoeddiad at cssiw_information@wales.gsi.gov.uk.

9. Cyhoeddiadau cysylltiedig

- Cyhoeddir gwybodaeth fanylach bob chwarter i gyd-fynd â'r datganiad hwn ar offeryn lledaenu ystadegau Llywodraeth Cymru, StatsWales. Yma ceir dadansoddiad pellach yn ôl y math o leoliad a fesul awdurdod lleol: www.statswales.wales.gov.uk/index.htm

- Bob blwyddyn, bydd AGGCC yn cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau mewn lleoliadau a reoleiddir yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd. Gellir dod o hyd i'r Adroddiad Blynyddol drwy'r ddolen ganlynol: http://cssiw.org.uk/our-reports/annual-reports/?lang=cy

- Mae rhestrau o leoliadau a reoleiddir a'u hadroddiadau arolygu diweddaraf ar gael yng Nghyfeiriadur y Gwasanaethau Rheoledig:

http://cssiw.org.uk/find-a-care-service/service-directory/?lang=cy

10. Gwybodaeth bellach

Ceir gwybodaeth bellach ar wefan AGGCC:
www.cssiw.org.uk

11. Gwybodaeth ar gyfer cysylltu

Os oes gennych unrhyw sylwadau am y Datganiad Ystadegol hwn, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â
Claire Bushell
AGGCC
Rhydycar,
Merthyr Tudful,
CF48 1UZ
Ffôn: 0300 062 8911
E-bost: cssiw_information@Wales.gsi.gov.uk